Cod Ymarfer: Protocol Cyfranogi

a Diogelu

www.ynysmon.gov.uk/bwrdd-diogelu-plant
www.gwynedd.gov.uk/bwrdd-diogelu-plant

Cadarnhawyd gan BLIDP Gwynedd 02/05/2008
Cadarnhawyd gan BLIDP Mon 10/07/2008

Cod Ymarfer: Cyfranogi a Diogelu.
BLlDP Gwynedd a Môn

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad syml ac ymarferol i'r arferion gorau o ran diogelu wrth drefnu gweithgareddau cyfranogi. Mae'r protocol wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd.

Protocol ar gyfer Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc - Cyfranogaeth

Nod y Protocolau yw galluogi pobl i gyfranogi'n llawn ac i beidio ag atal cyfranogaeth mewn gweithgareddau. Rhaid i ddigwyddiadau daro cydbwysedd rhwng cyfranogi ac iechyd a diogelwch a rhaid cynnal asesiad risg llawn a chynhwysfawr ar gyfer pob digwyddiad.

Mae'r protocolau'n seiliedig ar drefnu digwyddiad undydd yn lleol.

Lleoliad

Angen bod yn briodol ac yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc.

Cludiant

Os caiff bysiau mini eu defnyddio i gludo cyfranogwyr yno, rhaid sicrhau bod o leiaf 2 oedolyn gyda'r grŵp, i yrrwr ac 1 i hebrwng. Os defnyddir tacsis, dylid defnyddio'r cwmnïau hynny sydd wedi'u cofrestru gyda'r awdurdod lleol yn unig.

Gweithwyr Cymorth

At ddibenion y protocol hwn, diffinnir Gweithiwr Cymorth fel aelod staff neu wirfoddolwr a benodwyd gan yr asiantaeth sy'n ymateb i'r gwahoddiad i fynychu gyda chyfrifoldeb i hebrwng, goruchwylio a chynorthwyo plant neu bobl ifanc yn y digwyddiad. Rhaid cynnal archwiliad ar bob Gweithiwr Cymorth trwy'r CRB a rhaid i'r corff dan sylw archwilio eu cefndir.

Dylid bod yn ofalus wrth ddiffinio rôl rhieni sy'n mynychu digwyddiadau o'r fath gyda'u plant. Os yw eu rôl yn ymestyn i fod yn rôl Gweithiwr Cymorth [h.y. cyfrifoldeb dros blant ar wahân i'w plant eu hunain] mae'r un gofyniad am archwiliad trwy'r CRB ac archwiliad gan y corff yn angenrheidiol.

Dylai digwyddiadau sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i gydbwysedd o ran rhyw ymysg gweithwyr a bod hyn yn unol ag asesiad risg.

Dylai'r Gweithwyr Cymorth adnabod yr aelodau o'r grŵp y maent yn eu hebrwng.

Mae'n anodd cadarnhau beth yw'r gymhareb briodol o weithwyr i blant/pobl ifanc yn y digwyddiad. Bydd llawer yn dibynnu ar natur y gweithgarwch, oedran y plant, lefel yr anabledd/anghenion arbennig [os o gwbl], anawsterau ymddygiadol/sialensiau a ragdybir ayb. **Dylid cadarnhau'r union gymhareb sy'n ofynnol, felly, yn yr asesiad risg a gynhelir cyn y digwyddiad a gwneud trefniadau'n unol â hynny.**

Caniatâd
Er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau, bydd yn rhaid i rieni lenwi Ffurflenni Caniatâd, gan gynnwys Ffurflen Caniatâd Meddygol.

Cyfrinachedd

Rhaid sicrhau cyfrinachedd ac ni ddylid rhannu gwybodaeth am berson ifanc oni bai fod ystyriaethau sy'n berthnasol o ran eu cyfranogiad mewn gweithgarwch penodol, a dylent wybod fod y wybodaeth yn cael ei rhannu. **Dilynir Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan pe ceir honiadau/amheuon o gam-drin.**

Bydd y wybodaeth a gaiff ei rhannu gan y cyfranogwyr yn gyfrinachol i'r digwyddiad oni bai fod plant a phobl ifanc yn cytuno i'r wybodaeth gael ei rhannu gyda chynulleidfa ehangach.

Asesu Risgiau

Rhaid cynnal Asesiadau Risg cyn cynnal digwyddiadau, sy'n cynnwys ymwybyddiaeth lawn o bob risg. Rhaid cynnal Asesiadau Risg o fewn fframwaith cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo arferion gwrth-gamwahaniaethol. Mae angen darparu hyfforddiant i weithwyr sy'n cynnal Asesiadau Risg er mwyn sicrhau dull safonol o weithredu.

Rhaid i Asesiadau Risg gydnabod y bydd gan y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r amrywiol ddigwyddiadau wahanol ofynion o ran anghenion a chefnogaeth a bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth i'r rheiny fel rhan o'r broses.

Cyfleoedd Cyfartal

Dylai digwyddiadau hybu cyfranogiad llawn a brwd i bob plentyn a pherson ifanc. Dylai'r rhai sy'n gysylltiedig â'r gwaith gytuno beth yw'r ffiniau derbyniol ac annerbyniol o ran annog pobl i herio gwahaniaethu, canfyddiadau a stereoteipiau heb fod yn fygythiol yn y broses o wneud hynny.

Dylai Plant a Phobl Ifanc Allu:-

- Bod yn ddiogel
- Teimlo eu bod wedi'u hamddiffyn
- Cael cyfle i fynegi eu hunain
- Cael eu parchu a dangos parch

Yn ymarferol, dylai Plant a Phobl Ifanc Gael:-

- Egwyliau
- Bwyd
- Hwyluswyr
- Cyn lleied o darfu ag y bo modd
- Hyblygrwydd

- Hwyl
- Paratoadau

Digwyddiadau

Mae angen i bob digwyddiad feddu ar nodau ac amcanion clir. Dylai'r staff feddu ar rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u negodi a'u cytuno'n glir. Mae angen briffio staff, gan gynnwys Hwyluswyr. Dylid rhoi dulliau ar waith i adolygu cynnydd pob digwyddiad gan gynnwys plant a phobl ifanc, y trefnwyr, eu rheolwr llinell ac asiantaethau eraill fel ag y bo'n briodol.

Dylai digwyddiadau fod yn gyfuniad o weithgareddau llawn dychymyg a chyfleoedd i blant a phobl ifanc fynegi eu hunain.

Gweithgareddau Cyfranogi

Dylai'r gweithgareddau cyfranogi gynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddulliau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses. Dylai'r rhain gynnwys:-

- Arolygon o foddhad, grwpiau ffocws, ymchwil dan arweiniad cymheiriaid, refferenda, rheithgorau pobl ifanc, cynadleddau pobl ifanc, dogfennau ymgynghori, Sesiynau Holi ac Ateb, fforymau i ddefnyddwyr gwasanaeth, cynlluniau ar gyfer cwynion / awgrymiadau, gwefan ryngweithiol, ymarferiadau creu gweledigaeth, fforymau materion, polau piniwn, holiaduron, fforymau parhaus, ymarferiadau untro, trafod mewn grwpiau bach, siopau un stop ac addysg dinasyddion.

Gwybodaeth

Mae angen i blant a phobl ifanc feddu ar wybodaeth hygyrch a dealladwy ynghylch nodau'r digwyddiad a'r gweithgareddau a gaiff eu cynnal.

Dylid rhoi gwybodaeth hefyd i gyfranogwyr ynglŷn â'r hyn y dylent ei wneud os ydynt yn anhapus neu os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel yn y digwyddiad. **Dylai taflenni cwynion fod a'r gael a dylai plant a phobl ifanc wybod at bwy i droi i ddatrys unrhyw anawsterau sydd ganddynt.**

Arfarnu ac Adolygu

Dylid arfarnu canlyniadau pob digwyddiad. Dylai pob digwyddiad gynnwys proses o arfarnu ac adolygu. Rhaid i'r arfarniad gynnwys persbectif cyfranogwyr sy'n blant a phobl ifanc. Rhaid rhoi adborth hefyd i blant a phobl ifanc ynghylch canlyniadau'r digwyddiad.

<u>Cyfranogiad Unigolion</u>.

Mae'r protocol hwn yn canolbwyntio'n fwriadol ar god ymarfer sydd wedi'i gytuno a'i dderbyn ar gyfer dechrau digwyddiadau/gweithgareddau cyfranogi i grŵp/nifer benodol o blant neu gyda hwy.

Nid dyma'r unig ffordd, wrth gwrs, y bydd plant a phobl ifanc yn cyfrannu at lunio penderfyniadau.

Mae'n amlwg y bydd amgylchiadau [yn enwedig o fewn Gofal Cymdeithasol i Blant] pan fydd plant yn ymwneud â phenderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt mewn modd uniongyrchol a phersonol fel unigolion.

Mae'n rhaid wrth ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn a glynu wrth arferion da ym maes gwaith cymdeithasol.

Mae'n awgrymu y dylid ystyried eu dymuniadau a'u teimladau gan gynnwys safbwynt y plentyn ym mhob mater. Mae hyn yn parhau ac mae angen cynnal deialog parhaus ond gellid ei weithredu hefyd o amgylch prosesau asesu, cynllunio ac adolygu gofal, cynadleddau amddiffyn plant, achosion gofal, Cynadleddau Grŵp Teuluol a Chwynion a Sylwadau.

Mae'n hanfodol y caiff canlyniadau'r gweithgareddau hyn eu cofnodi'n drylwyr fel mynegiant o farn plant a phobl ifanc ac fel tystiolaeth o'u cyfraniad at y broses o lunio penderfyniadau.